UNDEB CENEDLAETHOL YR ATHRAWON

NEWYDDION YR NUT

YR UNDEB MWYAF YN EWROP I ATHRAWON

Rhif 1

IONAWR • 2009

GALWCH HEIBIO I'N GWEFAN: www.teachers.org.uk

UNDOD PROFFESIYNOL YN 2009

Cred yr NUT mai proffesiwn addysgu unedig yw'r ffordd orau o sicrhau cyfundrefn addysg o'r radd flaenaf ar gyfer ein holl blant.

Rydym yn ymhyfrydu yn y ffaith mai ni yw'r mudiad athrawon mwyaf yn Ewrop ac hefyd yn falch mai ni yw'r undeb sy'n ymgyrchu'n gyson dros Undod Proffesiynol.

GYDA'N GILYDD RYDYM YN GRYFACH

Gyda'n gilydd fe fyddem i gyd yn gryfach i daclo'r problemau mwyaf pwysig sy'n wynebu athrawon yn yr ystafelloedd dosbarth heddiw. Mae llwyth gwaith yn fater allweddol, yn arbennig gofynion cynllunio gormodol ac arsylwi diddiwedd.

Mae athrawon ifanc yn dweud eu bod yn gadael y proffesiwn am na allant fforddio byw ar eu cyflogau. Mae profion, cwricwlwm gorlwythog ac arolygu gormodol yn cael effaith niweidiol ar nifer o athrawon yn ogystal ag ar y system addysg.

CYDBWYSEDD GWAITH/BYWYD

Mae'r NUT wedi tynnu sylw'r llywodraeth at y ffaith bod athrawon yn yr Alban yn gweithio 35 awr yr wythnos. Rydym yn trafod gyda'r llywodraeth i sicrhau nad yw athrawon yng Nghymru a Lloegr yn gweithio oriau gormodol chwaith.

CYFYNGU AR GYFARFODYDD

Rydym yn dal i boeni am y nifer o gyfarfodydd y disgwylir i athrawon eu mynychu. Mae'r NUT yn credu'n gryf na ddylid ar gyfartaledd cael mwy nag un cyfarfod gyda'r hwyr bob wythnos.

Pan gynhelir dau gyfarfod mewn un wythnos, boed hynny i drafod gyda rhieni neu am reswm arall, dylai fod wythnos hefyd heb gyfarfodydd o'r fath.

Meddai Christine Blower Ysgrifennydd Cyffredinol Dros Dro yr NUT:

"Credaf fod mudiad newydd, unedig i athrawon yn bendant er lles athrawon a phlant. Gadewch i ni wneud 2009 yn flwyddyn o undod i'r proffesiwn addysgu."

Bydd yr NUT yn delio â'ch holl faterion llwyth gwaith yn 2009 ac hefyd yn parhau i gysylltu â mudiadau athrawon eraill er mwyn chwilio am ffyrdd o weithio'n agos gyda'n gilydd.

EIN NOD – UNDOD PROFFESIYNOL

YMUNWCH Â'R NUT MYNNWCH AIR Â'CH CYNRYCHIOLYDD YSGOL

www.teachers.org.uk

NID OES ANGEN FFURFLEN, FFONIWCH

Llinellau Brys Ymaelodi 0845 300 1669 neu 020 7380 6369

Llinell Gymorth Manylion 0845 300 1666

Cynlluniwyd a chyhoeddwyd gan Adran Strategaeth a Chyfathrebu yr NUT – www.teachers.org.uk Dyluniwyd gan Paragraphics – www.paragraphics.co.uk Printiwyd gan Victoria House Printing Co. Ltd (TU throughout). 6238w/01/09